

# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cynghorydd **C.E.Smith**

Ward: **Llangewydd a  
Brynhyfryd**

Plaid: **Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2019**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrydd yn cynrychioli safbwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf wedi byw yn y ward hon ers yr 1970au ac wedi bod yn gyngorydd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ei chyfer ers Mai 2013. Rwyf hefyd yn cynrychioli'r un ward ar Gyngor Cymunedol Trelales ers sawl blwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon.

## Gweithgaredd Etholaeth (dim mwy na 200 o eiriau)

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward, yn unigol ac ar y cyd, ar amrywiaeth o faterion, ac yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 30 Ebrill 2019, rwyf wedi codi'n ffurfiol 76 o ymholiadau etholwyr gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill drwy'r system atgyfeirio aelodau.

Rwy'n cynnal cymhorthfa (argymhellir apwyntiad) yng Nghanolfan Gymunedol Westward, fel arfer am 9.30 am ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis, ond gwiriwch gyda mi ymlaen llaw, a noder nad oes angen disgwyl am gymhorthfa, gallwch gysylltu â mi ar unrhyw adeg resymol.. Fy mhwyntiau cyswllt gorau yw:

e-bost [cllr.charles.smith@bridgend.gov.uk](mailto:cllr.charles.smith@bridgend.gov.uk) neu fy ffôn symudol cartref 07771 900304.

Rwyf yn aml yn cerdded neu'n beicio o amgylch y ward, ac yn defnyddio ein gwasanaeth bysiau lleol (Cefn Glas Cylchol, llwybrau 68 a 69).

## Mentrau a Gweithgareddau Arbennig (dim mwy na 200 o eiriau)

Rwyf yn danfon cardiau Nadolig yn bersonol bob blwyddyn, a chylchlythyr yn achlysurol, i bob tŷ yn y ward, yn gweithio gyda'r Cyngorydd Jon-Paul Blundell, sy'n cynrychioli ward Cefn Glas gerllaw. Mae hyn yn sicrhau bod pob tŷ yn ein hardaloedd ni yn cael nodyn atgoffa gyda'n manylion cyswllt, ac rydym yn gweld pob stryd ac ardal ein hunain,

sy'n rhoi'r cyfle inni adrodd ar unrhyw dyllau yn y lonydd, goleuadau stryd neu faterion eraill sydd angen sylw'r cyngor.

Mater presennol sydd o bryder i'r Cynghorydd Blundell a minnau: mae gan y ddau ohonom ddi-ddordeb brwd yn y cynllun tawelu traffig Barnes Avenue, parth 20 mya sy'n cael ei ddarparu a'i ariannu fel amod cynllunio gan y cwmni sy'n datblygu tai newydd yn Heol Tŷ Maen. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod trigolion yn cael eu hymgyngori'n llawn ac yn cael dweud eu dweud ar ddyluniad y cynllun, yr ydym yn meddwl sy'n cael ei gefnogi gan y rhan helaeth o bobl leol.

Rwyf yn gefnogwr brwd o'n Canolfan Gymunedol Westward. Pan rwy'n cael y cyfle, rwyf hefyd yn mynychu sesiynau prynhawn Gwener y grŵp "Young at Heart" ar gyfer pobl 50 oed a hŷn, sy'n cyfarfod yng Nghlwb Pêl-droed Pen-y-bont, Heol Llangewydd. Rwyf hefyd yn aelod o lywodraethwyr Ysgol Babanod Cefn Glas, lle roedd fy mab a fy merch yn mynychu rhai blynyddoedd yn ôl. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o gynlluniau uchelgeisiol Cyngor Cymunedol Trelales i ddatblygu Canolfan Gymunedol ar Gae Chwarae Bryntirion yn Mount Pleasant.

### **Gweithgareddau/Materion Eraill**

Fel Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio, rwyf wedi cyfrannu at sawl menter polisi mawr. Ar lefel ranbarthol, fi yw cadeirydd Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer gwella ysgolion, sy'n cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Chaerdydd.

Yn fy rôl "adfywio", rwy'n rhannu cyfrifoldeb dros sawl prosiect pwysig, fel datblygu canolfan ddiwylliannol yn Neuadd y Dref Maesteg, gwelliannau i farchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr, a'r adfywiad strategol o amgylch harbwr Porthcawl. Rwyf hefyd yn llywodraethwr yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr.

Fodd bynnag, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i gynghorwyr gynrychioli eu cymuned leol yn weithredol, a hynny yw fy mlaenoriaeth gyntaf o hyd. Credaf y dylai'r Cyngor Bwrdeistref Sirol gydweithio'n agos gyda'r Cynghorau Cymunedol a Thref, ac rwy'n credu bod moderneiddio a chynnal llefydd chwarae ein plant, a diogelu ein hardaloedd agored yn rhagweithiol ac yn rymus, yn enghreifftiau da o gydweithio o'r fath, gyda chanlyniadau gweledol a chadarnhaol. Fel Dirprwy Gadeirydd Fforwm y Cynghorau Cymunedol a Thref, gobeithiaf weld cynlluniau plannu coed mawr yn cael eu hannog a'u cydlynu ar draws y sir yn y dyfodol agos.

Cynghorydd **Charles Smith**

Dyddiad: **19.2.20**